

DTR Medical

Proffil y Cwmni

Cwmni llwyddiannus sy'n gweithgynhyrchu dyfeisiau meddygol yw DTR Medical, a lansiwyd yn 2005, ac mae'n darparu offer llawfeddygol di-haint untro i weithwyr meddygol proffesiynol. Mae'r offer a ddarperir yn rhoi gwerth i gleifion ac yn glinigol. Mae'r cwmni wedi bod yn gweithredu ers wyth mlynedd ac mae ganddo fwy na 600 o gwsmeriaid yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ar hyn o bryd.



Sbecwla Clust Shea Untro DTR Medical

Mae ystod o gynhyrchion DTR Medical yn cynnwys llawer o offer llawfeddygol untro di-haint newydd ar gyfer meysydd arbenigol megis y glust, y trwyn a'r gwddf (ENT), llawfeddygaeth gynaeolegol, orthopaedig, fasnwlaid a chyffredinol, a niwrolawdriniaeth. Mae hefyd yn cyflenwi ystod o gynhyrchion ar gyfer gwasanaethau di-haint gan gynnwys tiwbiau silicôn di-haint a dorwyd ymlaen llaw. Mae DTR Medical yn ymestyn ei ystod o gynhyrchion yn barhaus i fodloni galwadau newydd yn y farchnad.

Cydweithredu â BEACON

Mae DTR Medical yn ymroi i gynhyrchu cynhyrchion meddygol yn y modd mwyaf cynaliadwy posibl. Yn eu cyfarfod cychwynnol â BEACON, mynegodd DTR Medical ddiddordeb mewn archwilio dewisiadau ar gyfer defnyddio cynnwys bio-bolymer wedi'i seilio ar blanhigion yn lle plastigion presennol yn eu hystod o gynhyrchion sbecwla clust.

Yn dilyn trafodaethau â'r gwyddonwyr ymchwil yn y Ganolfan BioGyfansoddion ym Mhrifysgol Bangor, cynhaliwyd dadansoddiad thermograffimetrig (tGA) i ddadansoddi

“ Mae gweithio gyda BEACON yn rhoi cyfle i ni ddarganfod manteision cystadleuol newydd ac mae'n diogelu ein hystod o gynhyrchion untro at y dyfodol. ”

Andrew Davidson, Rheolwr Gyfarwyddwr

a chymharu prïodweddau ffisegol posibl sbecwla clust a gynhyrchwyd o asid polylactig (PLA) (a gafwyd o startsh planhigion), yn lle eu hystod bresennol o gynhyrchion sy'n cynnwys styren bwtadien acrylonitril (ABS).

Dangosodd canlyniadau'r dadansoddiad fod y PLA polymer yn cyfateb yn dda i nodweddion ABS. Awgrymwyd y byddai angen cynnal mwy o broffion ar y PLA i sefydlu pa un a ellid gweithgynhyrchu sbecwla clust gan ddefnyddio PLA fel polymer amgen. Byddai angen ystyried cost ac amodau prosesu yn ystod y cam datblygu, ynghyd â'r gofyniad o ran cyfaddasrwydd ar gyfer diheintio.

Yn dilyn y gwerthusiad gwyddor deunyddiau, cynhaliodd Dadansoddwr Cylch Bywyd BEACON asesiadau i amlygu manteision posibl defnyddio PLA o safbwynt yr amgylchedd, yn ogystal ag amlygu problemau amgylcheddol posibl yn gysylltiedig â phob system gynhyrchu. Rhoddodd y canlyniadau ddealltwriaeth ddefnyddiol i'r cwmni o fanteision posibl newid o'r fath, sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Mae'r gwaith cydweithrediadol a wnaed gyda DTR Medical ym maes gwyddor deunyddiau a dadansoddi cylch bywyd yn dangos ehangder yr arbenigedd a'r galluoedd sydd ar gael i gwmnïau ar draws cyfleusterau BEACON.



DTR Medical

I gael rhagor o wybodaeth am DTR Medical ewch i www.DTRmedical.com

